**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/EM/1562/21

Russel George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

27 Awst 2021

Annwyl Russell,

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A CHWARAEON AR Y DDARPARIAETH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL AR YR YSTÂD CARCHARDAI I OEDOLION YNG NGHYMRU**

Gweler ein hymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Pwyllgor blaenorol y Senedd, 'Darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru'. Gan fod y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn aelod o'r pwyllgor ar y pryd, mae wedi nodi'r ymateb er gwybodaeth y tro hwn, er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl.

Mae'r ddogfen amgaeedig yn nodi ein hymatebion i bob argymhelliad.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I DDARPARIAETH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YN YR YSTAD CARCHARDAI I OEDOLION YNG NGHYMRU**

**AWST 2021**

---

**Argymhelliad 1**

**Dylai pwyllgor y Chweched Senedd sydd â chyfrifoldeb am iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystâd carchardai oedolion yng Nghymru geisio cael ymateb i'n hargymhellion gan Lywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd, monitro pa gynnydd sy'n cael ei wneud, a chynnwys gwaith dilynol ar y materion hyn ar adeg briodol yn ei raglen waith.**

Ymateb: Amherthnasol i Lywodraeth Cymru

Mater i'w ystyried gan Bwyllgor y Chweched Senedd yw hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mater i Bwyllgor y Senedd yw hwn.

**Argymhelliad 2**

**Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o wybodaeth am aelodaeth a rhaglen waith y Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai (PHSCOG), ac ymrwymo i gyhoeddi agendâu a chofnodion y PHSCOG o hyn ymlaen.**

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai (PHSCOG), yn unol â'r hyn a nodir yn yr argymhelliad. Bydd y wybodaeth yn cael ei darparu ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2021 a bydd yr agendâu a'r cofnodion cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar yr adeg briodol ar ôl pob cyfarfod.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 3**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) i sicrhau bod gwaith Bwrdd Diwedd Contract Parc yn cynnwys datblygu trefniadau arolygu cadarn sy'n gyson â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer carchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru.**

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi cael sicrwydd bod Bwrdd Diwedd Contract Parc yn cynnwys datblygu trefniadau arolygu cadarn sy'n gyson â charchardai eraill yn y sector cyhoeddus. Mae'r carchar a'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ailsefydlu Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Carchar, ac os oes angen, bydd modd uwchgyfeirio materion na ellir eu datrys yn lleol yn unol â charchardai eraill i'r Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu'n barhaus â Bwrdd Diwedd Contract Parc yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 4**

**Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyfrwng deddfwriaethol addas cyntaf i gyflwyno gwelliannau i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 i gynnwys yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn y rhestr o gyrff y gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gydweithredu â nhw mewn ymchwiliad.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y mater hwn ymhellach gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn archwilio goblygiadau diwygio deddfwriaeth i ehangu cylch gwaith yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ac ar gyfer y cydweithrediad ymchwiliol ychwanegol.

Goblygiadau Ariannol - Ymdrinnir â goblygiadau ariannol y gwaith hwn fel rhan o'r trafodaethau gyda HMPPS a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

**Argymhelliad 5**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ymestyn rôl yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i'w alluogi i gwestiynu barn**

**broffesiynol a chlinigol wrth arfer ei swyddogaeth o ymchwilio i gwynion am wasanaethau iechyd mewn carchardai preifat yng Nghymru.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y mater hwn ymhellach gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i weld a oes unrhyw hyblygrwydd deddfwriaethol i ehangu cylch gwaith yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ar gyfer yr ymchwiliad clinigol ychwanegol.

Goblygiadau Ariannol - Ymdrinnir â goblygiadau ariannol y gwaith hwn fel rhan o'r trafodaethau gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Argymhelliad 6**

**Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'i phartneriaid trwy'r PHSCOG, gyhoeddi asesiad blynyddol o i ba raddau y cyflawnir nod y cytundeb Partneriaeth y dylai carcharorion allu cael gwasanaethau iechyd o safon gyfwerth i'r rhai sydd ar gael yn y gymuned.**

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn gan nodi y bydd yn monitro cynnydd trwy'r pedair ffrwd waith o dan y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd Carchardai. Bydd hyn yn sefydlu safonau ar gyfer gofal iechyd troseddwyr y gellir eu cymharu ar draws carchardai ac â'r gymuned. Cyflwynir adroddiad i'r Bwrdd Goruchwylio a chyhoeddir cofnodion perthnasol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 7**

**Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o fanylion am sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau cyfiawnder a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar ddyddiadau rhyddhau a chynlluniau rhyddhau carcharorion, gan gynnwys pa rolau y gallai'r PHSCOG ac Awdurdod Iechyd Arbennig GIG Cymru yn y maes Digidol chwarae yn y gwaith hwn.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru i gyhoeddi canllawiau penodol i gefnogi prosesau rhyddhau carcharorion yn ystod y pandemig. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru ym meysydd tai, fferylliaeth, iechyd meddwl, Covid-19, camddefnyddio sylweddau a gofal sylfaenol wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau. Yn ystod y pandemig, gwelwyd gwelliannau sylweddol yn y maes hwn a byddwn yn ceisio ymgorffori'r rhain wrth symud ymlaen.

Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfer carcharorion sydd wedi cael prawf positif am Covid-19 neu sy'n arddangos symptomau wrth gael eu rhyddhau. Roedd y canllawiau hyn yn helpu i sicrhau bod y gwaith o ddarparu cymorth llety, gofal a thrafnidiaeth yn cael ei gydlynu a'i fod yn addas ar gyfer unigolion sy'n gadael y carchar â diagnosis o Covid-19 neu sy'n arddangos symptomau cyn cael eu rhyddhau. Cyhoeddwyd y canllawiau am y tro cyntaf ar 28 Ebrill 2020 cyn cael eu diweddaru yn Hydref 2020 i adlewyrchu diweddariadau i'r broses o gadw carcharorion yn y ddalfa.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i archwilio dewisiadau ar gyfer defnyddio systemau TG i wella'r broses o rannu gwybodaeth yn y cyswllt hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 8**

**Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar ba ystyriaeth a roddwyd i fabwysiadu yng ngharchardai Cymru y dull gweithredu a ddefnyddir yn Lloegr i sicrhau bod cofnodion meddygol carcharorion cyn iddynt fynd i'r carchar ar gael i wasanaethau iechyd y carchar.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r dull gweithredu yn Lloegr ac yn sefydlu gweithgor i ystyried mabwysiadu hyn yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol - Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adolygiad o'r gwaith yn Lloegr a sut y gellid mabwysiadu unrhyw ddull gweithredu yng Nghymru.

**Argymhelliad 9**

**Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu dangosydd perfformiad cenedlaethol ar gyfer mynychu apwyntiadau gofal iechyd, a dylai weithio gyda'i phartneriaid trwy'r PHSCOG i hwyluso rhannu dysgu ac arferion gorau mewn perthynas â'r rhesymau dros golli apwyntiadau a mesurau y gellir eu cymryd i sicrhau bod pob carcharor yn gallu cael y gwasanaethau iechyd sydd eu hangen arno yn amserol.**

Ymateb: Derbyn

Bydd dangosydd perfformiad cenedlaethol yn cael ei ddatblygu a bydd gweithgor yn cael ei sefydlu i adolygu'r argymhelliad hwn. Byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gasglu data cyson yn y maes hwn a rhannu arferion gorau. Hefyd, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu rhannu i'w trafod yn y Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Fodd bynnag, ymdrinnir â goblygiadau ariannol ar gyfer datblygu'r dangosydd fel rhan o'r trafodaethau oddi mewn i'r gweithgor.

**Argymhelliad 10**

**Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd cynnydd yn erbyn y flaenoriaeth yn y cytundeb Partneriaeth mewn perthynas ag iechyd meddwl yn cael ei fonitro, gan gynnwys sut y bydd cyfraniad y safonau cenedlaethol newydd yn cael ei asesu ac a yw'r dull 'safon genedlaethol' yn cynnig unrhyw ddysgu ar gyfer mynd ati i ddarparu gofal iechyd neu gymdeithasol arall yn yr ystad ddiogeled yng Nghymru.**

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o gynlluniau i gyflwyno safonau iechyd meddwl newydd yn y carchardai, bydd pwyslais parhaus ar ganlyniadau. Y bwriad yw cyflwyno'r safonau newydd dros gyfnod o 12 mis, gan ddechrau yn 2022. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn adolygu cynnydd y safonau newydd i ddarparu gofal a thriniaeth i ddynion sydd yn y carchar. Er mwyn cefnogi cyfatebiaeth, lle y bo'n briodol, bydd yn bwysig defnyddio'r un dangosyddion ag sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r set ddata Craidd Iechyd Meddwl i fonitro mynediad at wasanaethau a chanlyniadau iechyd meddwl yn y carchardai.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Yn ogystal, mae gwaith i ddatblygu'r safonau yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, o dan gontract i Lywodraeth Cymru.

## Argymhelliad 11

**Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at bwyllgor y Chweched Senedd sy'n gyfrifol am ofal iechyd carchardai i ddarparu manylion y strategaeth ar gyfer cleifion mewnol diogel a ddatblygwyd o dan y fersiwn ddiwygiedig o Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni, amlinellu unrhyw welyau diogel ychwanegol a fydd yn cael eu darparu o ganlyniad, ac esbonio sut y bydd yr effaith ddilynol ar amseroedd aros yn cael ei monitro.**

Ymateb: Derbyn

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio ac ailgyhoeddi Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl mewn ymateb i effaith COVID-19. Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cleifion mewnol diogel ac ymrwymiad i ddatblygu strategaeth ar gyfer cleifion mewnol diogel yng Nghymru. Rhagwelir y bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau ac yn gwneud argymhellion yn ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol diogel (oedolion a phlant a phobl ifanc) erbyn mis Hydref 2021.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

## Argymhelliad 12

**Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlenni arfaethedig ar gyfer datblygu'r llwybr clinigol safonol ar gyfer rheoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai, gan gynnwys sut y bydd y dull arfaethedig o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn cael ei adolygu i sicrhau nad yw'n cael ei oedi'n ormodol gan y cyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn sgil y pandemig COVID-19.**

Ymateb: Derbyn

Yn unol â Chynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2019-22 Llywodraeth Cymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gomisiynu i baratoi drafft diwygiedig o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau (SMTF) - "Trin Troseddwyr" i Lywodraeth Cymru. Bydd y fersiwn ddrafft o SMTF yn cael ei hystyried yn ystod digwyddiadau ymgysylltu Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Bydd y digwyddiadau hyn yn ailddechrau ar ôl cael eu gohirio oherwydd COVID-19. Aed ati i ymgysylltu â'r holl rolau carchar a chymunedol perthnasol drwy weithdai rhithwir yn ystod Cam 1 ym mis Mai/Mehefin 2021. Canolbwyntiwyd ar ddisgrifio'r llwybr rheoli clinigol a nodi rhwystrau ac atebion i gamau gweithredu effeithiol a theg.

Mae canfyddiadau Cam 1 yn cael eu coladu a'u rhannu â'r grŵp gorchwyl a gorffen sy'n goruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith. Bydd gweithdai Cam 2 yn cynnwys ymgysylltiad ar draws lleoliadau/disgyblaethau/rolau i fynd i'r afael â materion gweithredu ledled yr ystad carchardai. Hefyd, byddant yn ymdrin â materion yn ymwneud â pharhad gofal, rheoli gwybodaeth a monitro a gwerthuso parhaus. Cynhelir gweithdai Cam 2 yn ystod mis Medi/Hydref 2021. Y nod yw darparu drafft terfynol o'r SMTF i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan y Gweinidog erbyn mis Rhagfyr 2021.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Yn ogystal, mae gwaith i ddatblygu'r safonau yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, o dan gontract i Lywodraeth Cymru.

## Argymhelliad 13

**Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad ar flaenoriaethau a chynllun gwaith diwygiedig y grŵp i fynd at wraidd y mater, gan gynnwys sut yr eir ati i fonitro cynnydd o ran dileu rhwystrau sy'n wynebu carcharorion a chyn-droseddwyr sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd, sy'n ceisio cael gafael ar gymorth yn y carchar neu ar ôl cael eu rhyddhau.**

Ymateb - Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r Grŵp At Wraidd y Mater Camddefnyddio Sylweddau/Iechyd Meddwl wrthi'n diweddaru ei gynllun gwaith, sy'n canolbwyntio ar sicrhau mynediad at wasanaethau yn y gymuned i bob unigolyn, gan gynnwys cyn-droseddwyr. Byddwn yn darparu diweddariad ar waith y grŵp i'r Pwyllgor erbyn mis Mawrth 2022, gan gynnwys y trefniadau monitro. Prif ffocws y grŵp hwn yw dileu rhwystrau i fynediad at wasanaethau integredig, cofleidiol ar gyfer pob grŵp yn y gymuned, gan gynnwys cyn-droseddwyr, er na fyddant yn wasanaethau i gyn-droseddwyr yn benodol.

Yn ogystal, mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau - "Trin Troseddwyr" yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â charcharorion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 14**

**Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at bwyllgor y Chweched Senedd sydd â chyfrifoldeb am ofal iechyd carchardai i roi diweddariad ar drafodaethau gyda HMPPS ynghylch buddion posibl sefydlu Grŵp Cynghori Arbenigol ar gyfer Meddyginiaethau.**

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn fel rhan o ffrwd waith Rheoli Meddyginiaethau Cytundeb Partneriaeth Llywodraeth Cymru/HMPPS, sy'n creu safonau cyson ar gyfer rhagnodi ym mhob carchar ac a fydd yn cael ei llywio gan Gynghorwyr Arbenigol ar gyfer Meddyginiaethau.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Yn ogystal, mae gwaith i ddatblygu'r safonau yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, o dan gontract i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 15**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu llwybr dementia ar gyfer carcharorion yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys cyflwyno, fel mater o frys, sgrinio a diagnosis cynnar ar gyfer dementia yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru, ynghyd â threfniadau i sicrhau bod pobl sy'n cael diagnosis dementia yn derbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.**

Ymateb: Derbyn

Mae'r safonau iechyd meddwl ar gyfer y carchar yn cynnwys pwyslais penodol ar ddementia. Mae'r safonau ar gyfer cymorth dementia yn y carchardai yn adlewyrchu'r safonau dementia ar gyfer y gymuned a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/newyddion-a-chyhoeddiadau/chyhoeddiadau/safonau-dementia/

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Yn ogystal, mae gwaith i ddatblygu'r safonau yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, o dan gontract i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 16**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid o fewn ffrwd waith iechyd Bwrdd Diwedd Contract Parc i sicrhau bod y fanyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn CEM Parc yn cynnwys sgrinio a diagnosis cynnar ar gyfer dementia, a threfniadau i sicrhau bod pobl sy'n cael diagnosis dementia yn derbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.**

Ymateb: Derbyn

Mae'r Fanyleb Iechyd ar gyfer Carchar EM y Parc yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gan HMPPS yng Nghymru mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'n cynnwys pwyslais penodol ar anghenion dynion hŷn yn y carchar a'r angen am lwybr dementia.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â Bwrdd Diwedd Contract Parc yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 17**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid trwy'r PHSCOG i ddatblygu a gweithredu hyfforddiant ar gyfer staff carchardai - gan gynnwys y rhai sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol - ar gefnogi carcharorion hŷn a charcharorion â dementia.**

Ymateb: Derbyn

Cafodd cynlluniau i ddarparu hyfforddiant dementia ar gyfer staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a HMPPS eu gohirio oherwydd y pandemig. Mae hyn yn flaenoriaeth yn y Cynllun Adfer a ddrafftiwyd ar gyfer carchardai yng Nghymru. Hefyd, mae'n un o ymrwymiadau Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag aelodau o Is-grŵp Dysgu a Datblygu'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym

maes Dementia (DOIIG) er mwyn bwrw ymlaen â'r ymrwymiad pwysig hwn ar drothwy cyfnod adfer ar gyfer y carchardai.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Bydd trafodaethau ag Is-grŵp Dysgu a Datblygu'r DOIIG yn canfod rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r hyfforddiant hwn.

**Argymhelliad 18**

**Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd blaenoriaethau cenedlaethol cytunedig PHSCOG ar gyfer carcharorion hŷn yn cael eu hintegreiddio i'r blaenoriaethau a nodir yn y cytundeb Partneriaeth, pa gamau a gymerir i'w gweithredu, a sut y bydd unrhyw welliannau i’r dull o ddiwallu anghenion carcharorion hŷn yn cael eu monitro a'u hasesu.**

Ymateb: Derbyn

Fel y nododd y Pwyllgor, mae gan bobl sy'n cael eu cadw yn yr ystad ddiogel yr un hawliau â phobl yn y gymuned allanol. O ganlyniad, mae angen arweinyddiaeth gan yr holl bartneriaid yng Nghymru i sicrhau'r hawliau hynny. Mae'r PHSCOG yn darparu gweithgareddau ffrwd waith fel Amgylchedd y Carchar a datblygu'r Llwybr Dementia. Bydd hyn yn galluogi carcharorion a'r gweithlu i nodi cyfleoedd a mynd i'r afael â'r heriau sy'n cael effaith benodol ar garcharorion hŷn fel rhan o ddull gweithredu cydlynol ac integredig gan y carchar cyfan.

Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i arwain, hwyluso a grymuso partneriaid i ymgorffori'r hawliau hyn drwy weithgareddau cynllunio, comisiynu a chyflawni ar bob lefel. Mae Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai yn darparu amgylchedd traws-sector i nodi rhwystrau a datblygu a rhannu atebion sy'n gwella canlyniadau i garcharorion ledled yr ystad ddiogel yng Nghymru. Bydd y PHSCOG yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth a chymorth fel bod Partneriaethau yn gallu rhoi eu blaenoriaethau ar waith.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 19**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid trwy'r PHSCOG i flaenoriaethu gweithgareddau yn y ffrwd waith amgylchedd y carchar yn unol â'u brys a'u pwysigrwydd priodol. Dylai hyn gynnwys nodi unrhyw**

**welliannau cyflym neu ddysgu sy'n deillio o newidiadau i amgylcheddau neu gyfundrefnau carchardai yn ystod y pandemig, a sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen wrth weithredu gwelliannau a allai effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant carcharorion.**

Ymateb: Derbyn

Yng nghyd-destun Cytundeb Partneriaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a HMPPS, mae gwaith i wella ffrwd waith Amgylchedd y Carchar yn parhau o dan arweiniad HMPPS. Bydd ymateb y carchar i'r pandemig yn cael ei gynnwys fel dysgu allweddol, a byddwn yn nodi pa newidiadau a gyflwynwyd a pha arferion newydd rydym am eu cadw a'u hehangu. Mae'r blaengynllun ar gyfer y ffrwd waith hon yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod yr ymyriadau sy'n cael yr effaith fwyaf yn cael eu rhoi ar waith i ddechrau. Mae diweddariadau ar gynnydd o dan y ffrwd waith hon yn cael eu cyflwyno i PHSCOG.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 20**

**Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y cyd-strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 yn mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw mewn perthynas â gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol carchardai.**

Ymateb: Derbyn

Mae strategaeth gweithlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, a lansiwyd ym mis Hydref 2020, yn sefydlu proses trawsnewid y gweithlu ledled y system ac yn sicrhau cynaliadwyedd y gweithlu ar gyfer y dyfodol. Bydd cyrhaeddiad gwaith datblygu'r gweithlu o fewn y strategaeth yn ymestyn i staff cyflogedig byrddau iechyd sy'n darparu gofal iechyd mewn carchardai.

Caiff gwaith datblygu pellach ei lywio gan ganlyniadau ein hymgynghoriad diweddar ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gwaith partneriaeth. Llwyddodd yr ymgynghoriad hwn i atgyfnerthu sut mae parhad y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar y canlyniadau llesiant y mae pobl yn eu sicrhau.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**<u>Argymhelliad 21</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru ddod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar sefydlu llinell sylfaen deg, ddigonol a chynaliadwy ar gyfer cyllid trwy Floc Cymru o'r ddarpariaeth gofal iechyd yn y carchardai sector cyhoeddus lle mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd. Dylai gael ei hategu gan asesiadau trylwyr sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r anghenion gofal iechyd yn y carchardai hyn, a dylai gynnwys mecanwaith uwchraddio sy'n ddigon hyblyg i ystyried chwyddiant, rhagolygon o boblogaeth carchardai, ac unrhyw newidiadau mewn anghenion gofal iechyd.**

<u>Derbyn mewn Egwyddor</u>

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argymhelliad hwn yn fanylach ac yn gweithio gyda HMPPS gyda'r nod o gryfhau asesiadau o anghenion gofal iechyd mewn carchardai. Ar ôl gwneud hyn, rhoddir ystyriaeth i sut i adrodd yn ôl yn effeithiol i Lywodraeth y DU (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) er mwyn cefnogi trafodaethau ariannu yn y dyfodol.

<u>Goblygiadau Ariannol</u> - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol. Bydd y costau gweithredu yn dibynnu ar drafodaethau â Llywodraeth y DU.

**<u>Argymhelliad 22</u>**

**Waeth sut mae gofal iechyd ym mhob carchar yng Nghymru yn cael ei ariannu, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid perthnasol trwy'r PHSCOG i goladu, adolygu a chyhoeddi gwybodaeth am gostau darparu gofal iechyd ar draws pob un o'r chwe charchar yng Nghymru, ac i hwyluso meincnodi a rhannu arferion gorau.**

<u>Ymateb: Derbyn</u>

Yn dilyn sesiwn y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ym mis Ionawr 2020 (a fynychwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Byrddau Iechyd perthnasol ynglŷn â chyllid ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a gofal eilaidd yn ystad y carchardai. Gofynnwyd am wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd sylfaenol ac eilaidd yn y carchardai, sy'n cael eu hysgwyddo gan y Byrddau Iechyd (gan gynnwys costau cyfalaf, refeniw a chostau staffio blynyddol ar gyfer darparu gofal iechyd). Fodd bynnag, gohiriwyd y broses o gasglu'r wybodaeth sylfaenol hon oherwydd y pandemig. Byddwn yn gofyn am ddiweddariad gan y Byrddau Iechyd perthnasol ar y mater hwn erbyn diwedd mis Tachwedd 2021 eleni.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

## Argymhelliad 23

**Dylai Llywodraeth Cymru fonitro lefel y galw, y ddarpariaeth a'r gwariant mewn perthynas â darpariaeth gofal cymdeithasol mewn carchardai yng Nghymru, a dylai roi sicrwydd i'n pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd nad yw'r model cyllido na lefel gyffredinol y cyllid yn atal pobl sy'n cael eu cadw yng ngharchardai Cymru rhag cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae gan bob carcharor yr un hawliau â phobl yn y gymuned i gael asesiad o'i anghenion am ofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, a'r hawl i sicrhau bod ei anghenion cymwys yn cael eu diwallu. Mae Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Carchardai yn darparu gwaith craffu ac atebolrwydd traws-sectorau i sicrhau bod yr hawliau hynny'n cael eu sicrhau. Byddwn yn ystyried sut y gellir adlewyrchu'r rolau a'r canlyniadau hyn a'u cysoni â'r sicrwydd a roddir fel rhan o'r trefniadau o dan argymhelliad 6 ac argymhellion tebyg a wnaed gan y Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

## Argymhelliad 24

**Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer ailddechrau'r gwaith ar ddatblygu set o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, nodi erbyn pryd y mae'n disgwyl i'r dangosyddion fod ar waith, a sut a phryd y bydd perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn cael ei adrodd a'i gyhoeddi.**

Ymateb: Derbyn

Roedd gwaith i ddatblygu set o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol wedi'i ohirio gan fod angen newid blaenoriaethau yn ystod yr ymateb i'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailddechrau'r darn allweddol hwn o waith bellach, a bydd yn creu set o ddangosyddion drafft dros y deuddeg mis nesaf. Yn dilyn hyn, bydd perfformiad yn erbyn y dangosyddion yn cael ei adrodd a'i gyhoeddi bob 12 mis.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 25**

**Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid trwy'r PHSCOG, nodi, datblygu a chyhoeddi'n rheolaidd setiau data penodol i Gymru mewn perthynas â'r boblogaeth carchardai gyfredol a'r boblogaeth carchardai a ragwelir.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

HMPPS a ddylai ystyried ai bwrw ymlaen ag ef gan ei fod yn ymwneud â phoblogaeth carchardai.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â HMPPS yng Nghymru sydd wedi cytuno i ailsefydlu gweithgor i nodi'r bylchau data presennol a datblygu dulliau o ddefnyddio'r data hwn yn gyson ar gyfer holl Garchardai Cymru a chyhoeddi'r setiau data yn rheolaidd. Bydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu gwahodd i fod yn aelodau allweddol o'r grŵp hwn.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mater i HMPPS yw hwn.

**Argymhelliad 26**

**Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn ei dangosfwrdd COVID19 wybodaeth am nifer yr achosion a marwolaethau COVID-19 ymhlith carcharorion a gedwir yng Nghymru, a nifer y brechiadau COVID-19 sydd wedi eu cynnig a'u derbyn ymhlith y boblogaeth carchardai.**

Ymateb: Derbyn

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei monitro a'i chadw gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i ystyried a ellir cynnwys y wybodaeth hon yn ystadegau Dangosfwrdd Covid Llywodraeth Cymru, a sut i wneud hynny.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 27**

**Dylai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid trwy'r PHSCOG, ystyried yr hyn y gellid ei ddysgu o ffyrdd o weithio a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys cyfraniad posibl technoleg ddigidol a thechnoleg o bell at wella mynediad carcharorion at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.**

Ymateb: Derbyn

Mae camau amrywiol wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo'r broses o ddefnyddio meddalwedd ymgynghori o bell Attend Anywhere yng ngharchardai Cymru, defnyddio Consultant Connect, a darparu mynediad at Linell Wrando a Chymorth (C.A.L.L) Llinell Gymorth Iechyd Meddwl Cymru ym mhob carchar yng Nghymru a diwygio gwasanaethau fferylliaeth i'w darparu'n ddiogel yn ystod y pandemig. Yn ogystal, cyflwynwyd y defnydd o byprenorphine i'w chwistrellu fel rhan o waith cynllunio 'Trwy'r Giât' ar gyfer y rhai â dibyniaeth opioid. Rhoddir ystyriaeth i sicrhau bod meysydd arferion gorau yn cael eu mabwysiadu lle bo hynny'n briodol.

Goblygiadau Ariannol - Bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn cael eu hysgwyddo gan gyllidebau gweinyddol.